

Cymwysterau lefelau 2 a 3 gwaith ieuenctid yng Nghymru (gweithiwr cymorth ieuenctid) ar gyfer 2015

Cefndir

Mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i ddysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill ac am y gymdeithas trwy weithgareddau heb fod yn ffurfiol sy'n cyfuno mwynhad, her a dysg. Fel arfer, fe fydd gweithiwr ieuenctid yn ymwneud â phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Diben eu gwaith yw hwyluso datblygu personol a chymdeithasol y bobl ifanc a'u galluogi i fynegi barn, dylanwadu ar ddigwyddiadau a mynnu eu priod le yn eu milltir sgwâr a'r gymdeithas i gyd.

Mae set newydd o gymwysterau gwaith ieuenctid (lefelau 2 a 3) wedi'i chyflwyno yn lle'r rhai ddaeth i ben fis Ionawr 2015. Fel y rhai blaenorol, bydd y Cydbwyllgor Negodi yn cydnabod pobl sydd wedi'u hennill yn weithwyr cymorth ieuenctid¹.

Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol (ETS NYA) sydd wedi arwain y datblygu, ar y cyd ag ETS Cymru, ers mis Mehefin 2013 gan gwrdd â chynrychiolwyr pob corff dyfarnu yng Nghymru a Lloegr ynghyd â chynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori â'r rhai sy'n ymwneud â gwaith ymhlith yr ifainc. Gwahoddwyd pob corff dyfarnu, ond dim ond y rhai sy'n bwriadu cynnig cymhwyster gwaith ieuenctid a gymerodd ran.

Cytunodd y cyrff dyfarnu perthnasol i gydweithio a llunio **un** set o gymwysterau i lefel 2 ac i lefel 3 fel y gallai pwyllgorau ETS Cymru a Lloegr roi sêl eu bendith arny'n nhw ar ran y Cydbwyllgor Negodi. Un o'r prif benderfyniadau yw mai dim ond cyrff dyfarnu sydd wedi helpu i lunio'r

cymwysterau a'r unedau fydd yn cael eu rhoi wedyn. Felly, dyma'r cyrff a chanddynt awdurdod o'r fath:

- ABC Awards
- Agored Cymru
- AIM Awards
- APT Awards
- Certa
- Laser Awards
- OCNWMR (canolbarth Lloegr)
- NOCN

(Roedd Sefydliad y Ddinas a'r Urddau yn ymwneud â'r broses ar y dechrau, ond penderfynodd dynnu yn ôl wedyn.)

Mae'r cymwysterau newydd ar ffurf unedau craidd a dewisol sydd wedi'u seilio ar Safonau Galwedigaethol Gwladol Gwaith Ieuenctid ac adborth o'r ymgynghori fel y byddan nhw'n addas i'w dibenion ac yn diwallu anghenion gwahanol polisïau a sefyllfaoedd.

Dyma'r cymwysterau:

- Dyfarniad Lefel 2 'Arferion Gwaith Ieuenctid'
- Tystysgrif Lefel 2 'Arferion Gwaith Ieuenctid'
- Tystysgrif Lefel 3 'Arferion Gwaith Ieuenctid'
- Diploma Lefel 3 'Arferion Gwaith Ieuenctid'

Mae'r strwythur cryno a'r fframweithiau cyflawn isod.

¹ Ystyr hyn yw bod cymwysterau'r lefel hon yn ddilys yn y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon.

Strwythur cymwysterau gwaith ieuentid ar lefel 2 a lefel 3

Papur hysbysu ETS Cymru am gymwysterau gwaith ieuentid, Mawrth 2015

Egwyddorion y datblygu


Wrth lunio cymwysterau newydd, yr egwyddorion allweddol oedd lleddfu pryderon am ddyblygu rhwng lefel 2 a lefel 3 yn ogystal â gofalu na fydd pobl sy'n cwblhau lefel 3 yn unig yn colli unrhyw ddysg hanfodol sy'n rhan o lefel 2.

Datryswyd y broblem trwy strwythuro cymhwyster yn ôl y 'proffil pigog' sydd ar y tu chwith, lle bydd pob myfyriwr yn dechrau ar lefel 2 ac yn dilyn y trywydd addas wedyn i ennill naill ai Dystysgrif Lefel 2 neu Dystysgrif Lefel 3.

Er bod modd ennill Dyfarniad Lefel 2 heb astudio ar gyfer y dystysgrif wedyn, dim ond ar ôl ennill Tystysgrif Lefel 2 neu Lefel 3 y daw cydnabyddiaeth y Cydbwyllgor Negodi. Mae modd ennill Diploma Lefel 3 trwy gredydau ychwanegol o'r unedau dewisol.

Er bod yr unedau gorfodol yn cwmpasu medrau craidd gwaith ieuentid, mae amrywiaeth helaeth o unedau dewisol wedi'u cynnwys i ddarparu ar gyfer amryw sefyllfaoedd a medrau arbenigol gweithwyr ieuentid. Ychwanegir dewisiadau eraill yn ôl yr angen.

Mae'r term 'sefyllfaoedd gwaith ieuentid' wedi'i ddefnyddio yn y cymwysterau i wahaniaethu rhwng y dysg hwn a 'gwaith cyffredinol gyda phobl ifanc' mewn amryw feysydd eraill megis mynediad agored neu glybiau. Mae'n cynnwys amryw sefyllfaoedd ehangach (megis ysgolion a sefydliadau ieuchyd) lle y gallai fod gweithwyr ieuentid a lle mae gorchwylion i'w cyflawni yn ôl egwyddorion, gwerthoedd a dulliau gwaith ieuentid.



Enwau unedau cymwysterau gwaith ieuencid ar lefel 2 a lefel 3

Unedau gorfodol Dyfarniad Lefel 2

I'w cwblhau gan bob myfyriwr lefel 2 a 3

- Damcaniaeth gwaith ieuencid – **4 credyd**
 - Diogelu mewn gwaith ieuencid – **3 chredyd**
 - Datblygu pobl ifanc – **2 gredyd**
 - Ymgysylltu a chyfathrebu â phobl ifanc – **2 gredyd**
- 11 credyd**

Unedau gorfodol lefel 2

- Grwpiau mewn gwaith ieuencid – **2 gredyd**
- Ymdopi ag ymddygiad heriol mewn gwaith ieuencid – **2 gredyd**
- Arferion gwaith ieuencid – **6 chredyd**
- Arferion myfyrdod gwaith ieuencid – **2 gredyd**

12 credyd

Unedau gorfodol lefel 3

- Grwpiau mewn gwaith ieuencid – **3 credyd**
- Ymdopi ag ymddygiad heriol mewn gwaith ieuencid – **2 gredyd**
- Arferion myfyrdod gwaith ieuencid – **2 gredyd**
- Arferion gwaith ieuencid – **6 chredyd**

13 credyd

Unedau dewisol lefel 2

Dewis o blith amryw unedau i ennill uchafswm o 3 chredyd

Cyfanswm: 26 credyd ar gyfer Tystysgrif Lefel 2

Unedau dewisol lefel 3

Dewis o blith amryw unedau i ennill uchafswm o 3 chredyd

Cyfanswm: 27 credyd ar gyfer Tystysgrif Lefel 3 + 10 credyd ychwanegol ar gyfer Diploma Lefel 3

Unedau dewisol lefel 2:

- Prif egwyddorion helpu pobl ifanc sy'n camddefnyddio cyffuriau: **2 gredyd**
- Helpu pobl ifanc ynglŷn ag anabledau ac anghenion addysgol arbennig trwy waith ieuencid: **3 chredyd**
- Hwyluso adloniant a hamdden pobl ifanc trwy waith ieuencid: **3 chredyd**
- Atal anffafrio trwy waith ieuencid: **3 chredyd**
- Hawliau a chyfrifoldebau cyflogaeth (ar gyfer prentisiaeth gwaith ieuencid): **3 chredyd**

Unedau dewisol lefel 3:

- Gwaith ieuencid neilltuol ac allgymorth – deall a gwybod: **4 credyd**
 - Gwaith ieuencid neilltuol ac allgymorth – arferion: **3 chredyd**
 - Deall rhaglenni cyfnewid mewn gwaith ieuencid: **5 credyd**
 - Rhoi rhaglenni cyfnewid ar waith mewn gwaith ieuencid: **6 chredyd**
 - Egwyddorion helpu pobl ifanc o ran iechyd rhywiol a pherygl beichiogi: **2 gredyd**
 - Atgyfeirio ac arwyddbyst mewn gwaith ieuencid: **3 chredyd**
 - Helpu pobl ifanc i baratoi, defnyddio ac adolygu cynllun gweithredu: **2 gredyd**
 - Hwyluso gwibdeithiau a chysiau preswyl gwaith ieuencid: **6 chredyd**
 - Astudio gwerthoedd ffydd a chymuned mewn gwaith ieuencid: **3 chredyd**
- I'w hychwanegu wedyn: 'Codi arian'
 - Deall sut mae rheoli staff gwaith ieuencid: **3 chredyd**
 - Rheoli cyflawniad mewn gwaith ieuencid: **3 chredyd**
 - Rheoli cyllideb mewn gwaith ieuencid: **2 gredyd**
 - Gwaith ieuencid yn ôl deilliannau effeithiol: **2 gredyd**
 - Arferion atal anffafrio mewn gwaith ieuencid: **3 chredyd**
 - Medrau goruchwylio mewn gwaith ieuencid: **4 credyd**
- Rheoli llwyth achosion: **3 chredyd**
 - Meithrin medrau cyfnewid ar gyfer gwaith ieuencid: **3 chredyd**
 - Hwyluso dysgu a datblygu ymhlith pobl ifanc trwy fentora: **4 credyd**
 - Helpu pobl ifanc sy'n chwilio am loches: **3 chredyd**
 - Helpu pobl ifanc i gyflawni eu llawn dwf: **3 chredyd**
 - Helpu pobl ifanc sydd o dan ofal neu'n gadael gofal: **3 chredyd**
 - Helpu pobl ifanc i bontio glasod a bywyd annibynnol: **3 chredyd**
 - Helpu pobl ifanc sydd heb weithio, astudio na chael eu hyfforddi, a pobl ifanc sydd wedi'u gwahardd rhag mynychu'r ysgol: **3 chredyd**
 - Gweithio gyda phobl ifanc sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a/neu weithgareddau troseddol: **3 chredyd**
 - Deall sut y gall gwaith ieuencid helpu pobl ifanc ac arnyn nhw broblemau iechyd y meddwl: **2 gredyd**
 - Deall sut y gall gwaith ieuencid helpu pobl ifanc i ymdopi â thlodi neu anfantais: **3 chredyd**
 - Deall sut y gall gwaith ieuencid helpu pobl ifanc sy'n camddefnyddio cyffuriau: **2 gredyd**
 - Deall sut y gall gwaith ieuencid helpu pobl ifanc sy'n lesbiaid, yn hoywon, yn ddeurywiol neu'n drawsrywiol: **2 gredyd**
 - Gweithio'n effeithiol gyda phobl ifanc sy'n agored i niwed: **3 chredyd**
 - Annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gwaith ieuencid: **3 chredyd**
 - Gweithio'n ddiogel ymysg gangiau: **3 chredyd**
 - Medrau cyfathrebu ymysg gangiau: **5 credyd**
 - Gweithio ymysg gangiau yn ôl fframwaith polisiau gwladol: **4 credyd**
 - Helpu pobl ifanc ynglŷn ag anabledau ac anghenion ychwanegol trwy waith ieuencid: **3 chredyd**

Crynodeb o unedau gorfodol lefelau 2 a 3

| Cymhwyster | Crynodeb | Cynnwys |
|---|---|--|
| Dyfarniad Lefel 2 Dros 16 oed | Eich paratoi chi i ddechrau gweithio gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd. | Byddwch chi'n dysgu'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Prif ddiben gwaith ieuentid • Prif egwyddorion a gwerthoedd gwaith ieuentid • Ble mae gwaith ieuentid yn digwydd • Sut mae diogelu pobl ifanc mewn gwaith ieuentid • Sut mae pobl ifanc yn datblygu • Rôl gwaith ieuentid o ran helpu pobl ifanc i ddatblygu'n oedolion • Deall hawliau • Ymgysylltu a chyfathrebu â phobl ifanc |
| Tystysgrif Lefel 2 Dros 16 oed | Eich paratoi chi i gynorthwyo 'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd. | Byddwch chi'n dysgu'r hyn uchod, yn ogystal â: <ul style="list-style-type: none"> • Strategaethau ar gyfer gweithio'n effeithiol gyda grwpiau • Sut mae adnabod anghydfod ac ymddygiad heriol ymhlith pobl ifanc • Sut mae helpu i gyflawni gorchwylion o dan oruchwyliaeth • Sut mae pwysu a mesur eich gwaith • Pynciau penodol ynglŷn â gwaith ieuentid yn ôl yr unedau sydd wedi'u dewis |
| Tystysgrif Lefel 3 Dros 18 oed | Eich paratoi chi i arwain gwaith gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd. | Byddwch chi'n dysgu'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Prif ddiben, egwyddorion a gwerthoedd gwaith ieuentid • Ble mae gwaith ieuentid yn digwydd • Sut mae diogelu pobl ifanc mewn gwaith ieuentid • Sut mae pobl ifanc yn datblygu • Rôl gwaith ieuentid o ran helpu pobl ifanc i ddatblygu'n oedolion • Deall hawliau • Ymgysylltu a chyfathrebu â phobl ifanc • Strategaethau ar gyfer arwain gwaith gyda grwpiau yn effeithiol • Sut mae helpu pobl ifanc i ymdopi ag anghydfod ac ymddygiad heriol • Sut mae arwain gorchwylion o dan oruchwyliaeth • Sut mae pwysu a mesur eich gwaith yn ôl lefel briodol • Pynciau penodol ynglŷn â gwaith ieuentid yn ôl yr unedau sydd wedi'u dewis |
| Diploma Lefel 3 Dros 18 oed | Eich paratoi chi i arwain gwaith gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd ac arbenigo mewn pynciau sy'n berthnasol i chi neu'ch gwaith. | Byddwch chi'n dysgu'r hyn uchod, yn ogystal â: <ul style="list-style-type: none"> • Pynciau penodol ychwanegol yn ôl eich diddordebau ac anghenion eich swydd |

Cynnydd: Sut mae cymwysterau lefelau 2 a 3 yn cydblethu â Llwybr Cydlynol Cymwysterau Cydnabyddedig Cymru²

| Cymhwyster | Credydau | Cydnabyddiaeth JNC | Sefydliadau sy'n ei gynnig yng Nghymru |
|--|---|---|--|
| Dyfarniad Lefel 2 Dros 16 oed | Mae 11 credyd i'r cymhwyster hwn. Felly, rhaid astudio tua 110 o oriau i'w ennill. | Nac oes | <ul style="list-style-type: none"> • Coleg Cymunedol YMCA Cymru • Awdurdodau Lleol unigol • Hyfforddiant Tor-faen (trwy brentisiaeth gwaith ieuenctid) |
| Tystysgrif Lefel 2 Dros 16 oed | Mae 26 credyd i'r cymhwyster hwn. Felly, rhaid astudio tua 260 o oriau i'w ennill. Daw 11 o'r credydau o Ddyfarniad Lefel 2. Rhaid ennill y cymhwyster hwnnw cyn cael dechrau astudio ar gyfer Tystysgrif Lefel 2. | Oes – Cynorthwywr gwaith ieuenctid | |
| Tystysgrif Lefel 3 Dros 18 oed | Mae 27 credyd i'r cymhwyster hwn. Felly, rhaid astudio tua 270 o oriau i'w ennill. Mae 16 credyd ar lefel 3 ac mae 11 ar lefel 2 (Dyfarniad Lefel 2 'Arferion Gwaith Ieuenctid'). Rhaid ennill y cymhwyster hwnnw cyn cael dechrau astudio ar gyfer Tystysgrif Lefel 3. | Oes – Gweithiwr cymorth ieuenctid | |
| Diploma Lefel 3 Dros 18 oed | Mae 37 credyd i'r cymhwyster hwn. Felly, rhaid astudio tua 370 o oriau i'w ennill. Mae 26 credyd ar lefel 3 ac mae 11 ar lefel 2 (Dyfarniad Lefel 2 'Arferion Gwaith Ieuenctid'). Rhaid ennill y cymhwyster hwnnw cyn cael dechrau astudio ar gyfer Diploma Lefel 3. | Oes – Gweithiwr cymorth ieuenctid ar ôl ennill Tystysgrif Lefel 3 | <ul style="list-style-type: none"> • Coleg Cymunedol YMCA Cymru • Awdurdodau Lleol unigol |
| Lefel 6 Gradd BA (Anrh.) Gwaith Ieuenctid a Chymuned | Mae 360 o gredydau i'r cymhwyster addysg uwch hwn, yn ôl tair lefel. Lefel 4: Tystysgrif Addysg Uwch (120 o gredydau) Lefel 5: Diploma Addysg Uwch/Gradd Sylfaen (120 o gredydau) Lefel 6: Gradd BA (Anrh.) (120 o gredydau) | Oes – Gweithiwr ieuenctid cymwysedig ar ôl graddio gydag anrhydeddau | <ul style="list-style-type: none"> • Prifysgol Fetropolitan Caerdydd • Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam • Y Brifysgol Agored • Prifysgol De Cymru, Casnewydd • Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin |
| Lefel 7 Diploma ar ôl graddio Gwaith Ieuenctid a Chymuned | Mae 120 o gredydau i'r cymhwyster addysg uwch hwn ar Lefel 7. | Oes – Gweithiwr ieuenctid cymwysedig | <ul style="list-style-type: none"> • Prifysgol Fetropolitan Caerdydd • Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam • Prifysgol De Cymru, Casnewydd • Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin |

² Mae Pwyllgor ETS Cymru a Phwyllgor NYA ETS Lloegr yn cymeradwyo cymwysterau ar ran y Cydbwyllgor Negodi dros Waith Ieuenctid a Chymuned (JNC). Y cydbwyllgor hwnnw sy'n pennu cyflogau, amodau, telerau a lefelau cymwysterau gweithwyr ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Cydnabyddir cymwysterau'r pwyllgor ledled y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon.

Prif ddyletswyddau cymwysterau cydnabyddedig³ gwaith ieuencid

| Cymhwyster | Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn? | Prif ddyletswyddau |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 2 Dros 16 oed | <p>Eich paratoi i ddechrau gweithio gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd.</p> <p>Dyma feini prawf i bennu a yw'n addas i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hoffech chi astudio ar gyfer Tystysgrif Lefel 2/3 neu Ddiploma Lefel 3 wedyn • mae angen cymorth arnoch i ddysgu • does dim cymhwyster ffurfiol gyda chi • hoffech chi ddychwelyd i addysg • hoffech chi weithio gyda phobl ifanc yn y dyfodol • rydych chi dros 16 oed | <p>Mae Dyfarniad Lefel 2 'Arferion Gwaith Ieuencid' yn addas os ydych chi'n weithiwr ieuencid newydd mewn rôl sy'n rhoi neu'n mynnu peth cymorth gan weithiwr cymwysedig. Mae'n orfodol i'r rhai a hoffai gydnabyddiaeth y Cydbwyllgor Negodi trwy ennill Tystysgrif Lefel 2 'Arferion Gwaith Ieuencid' neu Dystysgrif/Diploma Lefel 3 'Arferion Gwaith Ieuencid'.</p> |
| Tystysgrif Lefel 2 Dros 16 oed | <p>Eich paratoi i gynorthwyo'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd.</p> <p>Dyma feini prawf i bennu a yw'n addas i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae angen cymorth arnoch i ddysgu • heb fod yn barod ar gyfer Lefel 3 eto • does dim cymhwyster ffurfiol gyda chi • hoffech chi ddychwelyd i addysg • hoffech chi helpu i gyflawni gwaith gyda phobl ifanc • rydych chi dros 16 oed | <p>Tystysgrif Lefel 2 'Arferion Gwaith Ieuencid' yw'r cymhwyster lleiaf i'r rhai a hoffai ennill cydnabyddiaeth y Cydbwyllgor Negodi yn gynorthwywr gwaith ieuencid. Dyma'r cymhwyster i'r rhai sy'n helpu i gyflawni gwaith ieuencid ar lawr gwlad ac yn ymgymryd â dyletswyddau o dan oruchwyliaeth, lle nad oes cymaint o angen i weithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun.</p> <p>Dyma enghreifftiau o'r prif ddyletswyddau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc i ddatblygu eu haddysg gymdeithasol trwy gynig gweithgareddau, gwasanaethau a chyfleusterau. • Meithrin cysylltiadau â phobl ifanc a'u tywys nhw yn rhan o raglenni lleol. • Helpu i gynghori a chynorthwyo grwpiau cymunedol ac asiantaethau lleol. • Helpu i ysgogi, cadw, datblygu a chynorthwyo staff a gwirfoddolwyr. • Helpu i ddatblygu gwasanaethau trwy gyfrannu at waith cynllunio, cynnig a monitro'r hyn sydd ar gael yn lleol. • Gweinyddu beunyddiol i ofalu bod gwasanaethau'n gweithio'n esmwyth. • Rhoi polisiau cydraddoldeb ac amrywioldeb ar waith. |

³ Mae'r dyletswyddau ar gyfer Tystysgrif Lefel 2 ac yn uwch wedi'u pennu yng Nghytundeb Gwaith Ieuencid a Chymuned 2012 y Cydbwyllgor Negodi

| Cymhwyster | Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn? | Prif ddyletswyddau |
|--|--|--|
| <p>Tystysgrif Lefel 3 Dros 18 oed</p> | <p>Eich paratoi i arwain gwaith gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd.</p> <p>Dyma feini prawf i bennu a yw'n addas i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • does dim angen llawer o gymorth arnoch chi i ddysgu • heb fod yn barod/dim digon o brofiad eto ar gyfer addysg uwch • hoffech chi ymuno â chwrs addysg uwch ym maes gwaith ieuentid • does dim cymhwyster ffurfiol gyda chi • hoffech chi ddychwelyd i addysg • hoffech chi arwain gwaith gyda phobl ifanc • rydych chi dros 18 oed | <p>Tystysgrif Lefel 3 'Arferion Gwaith Ieuentid' yw'r cymhwyster priodol i'r rhai a hoffai ennill cydnabyddiaeth y Cydbwyllgor Negodi yn weithiwr cymorth ieuentid. Dyma'r cymhwyster i'r sawl sy'n cyflawni gwaith ieuentid ar lawr gwlad ac yn ymgymryd â dyletswyddau o'i ben a'i bastwn ei hun neu'n gyfrifol am brosiectau bychain megis clwb un noson yr wythnos. Bydd gweithwyr o'r fath yn cael eu harwain a'u cyfarwyddo'n weithredol gan weithwyr ieuentid cymwysedig.</p> <p>Dyma enghreifftiau o'r prif ddyletswyddau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc i ddatblygu eu haddysg gymdeithasol trwy gynig gweithgareddau, gwasanaethau a chyfleusterau. • Meithrin cysylltiadau â phobl ifanc a'u tywys nhw yn rhan o raglenni lleol. • Helpu i gynghori a chynorthwyo grwpiau cymunedol ac asiantaethau lleol. • Helpu i ysgogi, cadw, datblygu a chynorthwyo staff a gwirfoddolwyr. • Helpu i ddatblygu gwasanaethau trwy gyfrannu at waith cynllunio, cynnig a monitro'r hyn sydd ar gael yn lleol. • Gweinyddu beunyddiol i ofalu bod gwasanaethau'n gweithio'n esmwyth. • Rhoi polisiau cydraddoldeb ac amrywioldeb ar waith. • Meithrin a chynnal cysylltiadau â phobl ifanc a grwpiau cymunedol. • Cynnal ansawdd gwasanaethau gan gynnwys cyfarwyddo gweithwyr eraill. • Ysgwyddo cyfrifoldeb am reoli gweithwyr a gwirfoddolwyr gan gynnwys recriwtio a datblygu staff a chamau cyntaf gweithdrefnau disgyblu. • Sefydlu a monitro datblygiad gwasanaethau, yn arbennig gydag asiantaethau eraill; • Cyflawni a goruchwylio dyletswyddau gweinyddu megis rheoli cyllidebau, cadw cofnodion a gweithio yn ôl rheolau iechyd a diogelwch). |
| <p>Diploma Lefel 3 Dros 18 oed</p> | <p>Eich paratoi i arwain gwaith gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd ac arbenigo mewn pynciau sy'n berthnasol i chi neu'ch gwaith.</p> <p>Fel y meini prawf uchod yn ogystal â hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hoffech chi arwain gwaith gyda phobl ifanc ac arbenigo mewn rhai meysydd | <p>Fel sydd uchod</p> |

| Cymhwyster | Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn? | Prif ddyletswyddau |
|---|--|--|
| <p>Lefel 6 Gradd BA (Anrh.) Gwaith Ieuenctid a Chymuned</p> | <p>Eich paratoi i ysgwyddo cyfrifoldeb am lunio, cyflawni a datblygu gwaith ieuenctid. Efallai y bydd disgwyl ichi ysgwyddo cyfrifoldeb am y rheoli gweithredol, hefyd.</p> <p>Dyma feini prawf i bennu a yw'n addas i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae gyda chi Dystysgrif/Diploma Lefel 3 'Arferion Gwaith Ieuenctid' • mae Tystysgrif Safon Uwch neu brofiad perthnasol gyda chi | <p>Gradd BA (Anrh.) yw'r cymhwyster priodol i'r rhai hoffai ennill cydnabyddiaeth y Cydbwyllgor Negodi yn weithiwr ieuenctid a chymuned. Dyma'r cymhwyster i'r rhai sy'n gyfrifol am lunio, cyflawni a datblygu gwaith ieuenctid. Efallai y bydd disgwyl i weithwyr ieuenctid a chymuned cymwysedig ysgwyddo cyfrifoldeb am y rheoli gweithredol, hefyd.</p> <p>Dyma enghreifftiau o'r prif ddyletswyddau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflawni holl ddyletswyddau gweithiwr ieuenctid a chymuned. • Rheoli a datblygu amrywiaeth o wasanaethau. • Rheoli a datblygu staff a chyfleusterau. • Cydweithio ag asiantaethau eraill i ddatblygu gwasanaethau ledled y gymuned. • Llunio, llywio a defnyddio cwrícwllwm gwaith ieuenctid. • Arwain gwaith llunio a chynnal prosiectau. |
| <p>Lefel 7 Diploma ar ôl graddio Gwaith Ieuenctid a Chymuned</p> | <p>Eich paratoi i ysgwyddo cyfrifoldeb am lunio, cyflawni a datblygu gwaith ieuenctid. Efallai y bydd disgwyl ichi ysgwyddo cyfrifoldeb am y rheoli gweithredol, hefyd.</p> <p>Dyma feini prawf i bennu a yw'n addas i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae gradd berthnasol gyda chi • mae peth profiad o waith ieuenctid gyda chi | <p>Fel sydd uchod</p> |

Fframwaith Prentisiaeth Gwaith Ieuenctid Cymru

Defnyddir y cymhwyster sydd wedi'i ddisgrifio uchod ar lefel 2 ar gyfer prentisiaeth sylfaen gwaith ieuenctid, hefyd. Defnyddir y cymhwyster sydd wedi'i ddisgrifio uchod ar lefel 3 ar gyfer prentisiaeth gwaith ieuenctid. Mae rhagor o fanylion am fframwaith y prentisiaethau ar wefan ETS Cymru.

Rhagor o wybodaeth

Mae holl fanylion unedau lefel 2 a lefel 3 ar wefan [Agored Cymru](#)

Mae manylion darparwyr hyfforddiant perthnasol ar wefan [ETS Cymru](#)